

Rhaglen Newid Hinsawdd

Ymgysylltu Ysgolion Cynradd – Ymgyrch Un

Testun: Newid Hinsawdd	Hyd: 1 awr
Teitl y Sesiwn: CLUDIANT: Deall sut mae cludiant yn effeithio'r hinsawdd a thrafod sut all y dysgwyr gymryd camau gweithredu.	
Nodau'r Sesiwn: Deall beth yw newid hinsawdd, yr effeithiau mae'n ei achosi a sut allwn chwarae ein rhan. Wrth drafod cludiant a ffyrdd y gall dysgwyr gymryd camau gweithredu.	
Themâu: Newid hinsawdd; cymryd cyfrifoldeb am y blaned; cymryd camau gweithredu.	
Cynllun Sesiwn Enghreifftiol ar gyfer CA2 Uchaf:	
Cyflwyniad i'r sesiwn a chwarae'r fideo/s isod: Beth yw newid hinsawdd, yr effeithiau a chamau gweithredu yn gryno - https://www.bbc.co.uk/bitesize/topics/zynynxyc/articles/ztx9qyc (Dechrau ar 1.42 munud) (3.30 munud). - CAM GWEITHREDU 2 - yw'r hyn fydd y wers heddiw yn ei gynnwys. Cludiant a Chynaliadwyedd - https://www.bbc.co.uk/bitesize/topics/zt3k96f/articles/zyyw8hv (2.40 munud)	5 mun
Defnyddiwch y pwyntiau trafod isod; Dysgwyr i ystyried cludiant a'r berthynas gyda'r blaned. Gyda'r defnydd o PowerPoint sydd ar wefan CSFf, gyda dogfennau ychwanegol. <ul style="list-style-type: none">• Sawl math o gludiant gwahanol allwch chi feddwl amdano?• Yn y mathau o gludiant a drafodwyd yn flaenorol, pa rai sy'n well ar gyfer yr amgylchedd?• Beth yw'r manteision i gludiant cynaliadwy?• Beth ddylem ei wneud i annog mwy o gludiant cynaliadwy? • Sut wyt ti'n teithio i'r ysgol?• Pa fath o gludiant wyt ti'n ei gymryd yn rheolaidd?• Elli di ddefnyddio gwahanol fath o gludiant yn lle?	15 mun

<p>Chwarae Fideo</p> <p>BBC Teach Climate Change (4.10 mun) https://www.bbc.co.uk/teach/school-radio/assemblies-ks1-ks2-climate-change-global-warming/zbqxjsg</p>	<p>5 mun</p>
<p>TASGAU</p> <p>TASG 1: Disgyblion i gwblhau holiadur am y ffyrdd maent yn teithio i'r ysgol:</p> <ul style="list-style-type: none"> - Sut wyt ti'n teithio i'r ysgol rhan fwyaf o ddiwrnodau? - Os wyt ti'n cerdded/mynd â sgwter/beicio i'r ysgol, beth wyt ti'n hoffi am wneud hynny? - Pam na fyddet ti'n hoffi cerdded/mynd â sgwter/beicio i'r ysgol? <p>Unwaith y cwblheir hyn, trafodwch yr atebion:</p> <ul style="list-style-type: none"> - Beth fyddai'n dy annog di i gerdded/mynd â sgwter/beicio i'r ysgol? <p>Bws Cerdded i'r Ysgol https://www.youtube.com/watch?v=YQwUflFIXVU (2.16 mun)</p> <p>Bws Beicio https://www.youtube.com/watch?v=7HXuo7dExAq (2.00 mun)</p> <p>Disgyblion i wneud addewid i geisio dewis cludiant cynaliadwy i'r ysgol, a all gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> - Cerdded - Beicio - Mynd â Sgwter <p>Neu annog yr ysgol/cyngor i ystyried gwneud newidiadau i'w gwneud yn haws i fynd i'r ysgol trwy gludiant cynaliadwy/teithio llesol.</p> <ul style="list-style-type: none"> - Bws Cerdded i'r Ysgol - Bws Beicio - Mwy o lonydd beicio - Lleihau traffig ar y ffyrdd <p>TASG 2:</p> <p>Nodwch lwybr rydych yn ei gymryd yn rheolaidd (Ysgol), mapiwch y llwybr gan ddefnyddio cludiant cynaliadwy. Yna dewiswch rywun i rannu eich llwybr cynaliadwy gyda nhw ac eglurwch y llwybr iddynt.</p> <ul style="list-style-type: none"> - Os nad allent gymryd cludiant cynaliadwy i'r ysgol, meddyliwch am lwybr maent yn ei wneud yn rheolaidd i'w wneud yn lle. <p>Gall y dasg hon gael ei wneud ar bapur neu ar liniaduron.</p> <p>Gellir dod o hyd i'r holl ddogfennau tasg ar wefan CSFf.</p>	<p>35 mun</p>

Adnoddau Ategol:

Ymddiriedolaeth Pobl Ifanc ar gyfer yr Amgylchedd: Newid Hinsawdd

Cynllun Gwers PowerPoint CA2-3

<https://ypte.org.uk/lesson-plans/climate-change>

Llunio Ein Dyfodol WWF: Newid Hinsawdd

Cynlluniau Gwers PowerPoint CA2-3

<https://www.wwf.org.uk/get-involved/schools/school-campaigns/shaping-our-future>

Plant sy'n achub y byd drwy arbed ynni CA2-3

<https://www.youtube.com/watch?v=kXmsV7tJzuA>.

Sut i ofalu am yr Amgylchedd - Lleihau, Ailddefnyddio Ailgylchu CA2-3

https://www.youtube.com/watch?v=beIXC_lW4o

Archwiliad Dŵr Ysgol - Cam wrth Gam CA2-3

<https://www.anglianwater.co.uk/siteassets/household/in-the-community/school-water-audit.pdf>